# Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol

## i gofrestreion Cyngor y Gweithlu Addysg

diweddarwyd Medi 2025

© Cyngor y Gweithlu Addysg 2025

Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) ydym ni, sef rheoleiddiwr proffesiynol, annibynnol y gweithlu addysg yng Nghymru, a sefydlwyd gan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (y Ddeddf).

Rydym yn cofrestru ac yn rheoleiddio ymarferwyr addysg ar draws ysgolion, addysg bellach, gwaith ieuenctid, a dysgu oedolion/dysgu seiliedig ar waith, ac rydym yn gweithio er budd y cyhoedd i gynnal proffesiynoldeb a gwella safonau ar draws y sectorau hyn.

Yr enw ar ymarferwyr ar ein Cofrestr Ymarferwyr Addysg yw ‘cofrestreion’ ac maent yn cynnwys y categorïau canlynol:

- athrawon ysgol*
- gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion
- athrawon ysgolion annibynnol
- gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion annibynnol
- athrawon addysg bellach*
- gweithwyr cymorth dysgu mewn addysg bellach
- penaethiaid neu uwch-arweinwyr sy’n gweithio mewn sefydliadau addysg bellach
- athrawon sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol
- gweithwyr cymorth dysgu mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol
- ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith
- ymarferwyr dysgu oedolion*
- gweithwyr ieuenctid*
- gweithwyr cymorth ieuenctid*

*mae angen cymwysterau gofynnol penodol ar y categorïau cofrestru hyn. Am fwy o wybodaeth ewch i’r tudalennau cofrestru ar ein gwefan.

Mae cofrestreion yn gweithio mewn amrywiaeth eang o leoliadau addysg a hyfforddiant, gydag amrywiol lefelau o gyfrifoldeb, ar draws meysydd ymarfer gwahanol.

Mae’n ofynnol i bob cofrestrai gynnal y safonau a amlinellir yn y Cod hwn.

# Y Cod

Mae gofyniad cyfreithiol arnom o dan y Ddeddf i gyhoeddi cod sy'n amlinellu'r safonau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol a ddisgwylir gan unigolion sydd wedi cofrestru gyda ni.

Mae ein Cod yn datgan yn glir i'n cofrestreion yr egwyddorion ymddygiad ac ymarfer proffesiynol da allweddol y mae disgwyl iddynt eu cynnal er mwyn parhau i gofrestru. Hefyd, mae'n galluogi dysgwyr a phobl ifanc, a phawb sy'n ymwneud â'u haddysg a hyfforddiant yng Nghymru, yn enwedig rhieni/gwarcheidwaid, i wybod beth y dylent ei ddisgwyl gan gofrestreion.

Lle nad yw disgwyliadau'n cael eu bodloni, gallem benderfynu ymchwilio a gwrando ar honiadau sy'n cael eu hatgyfeirio i ni er mwyn penderfynu p'un a ddylai cofrestriad ymarferwr barhau. Mae gennym bwerau cyfreithiol i wneud hyn. Mae pob achos sy'n destun ymchwiliad yn cael ei ystyried ar sail ei rinweddau ei hun, gan gynnwys lleoliad cyflogaeth y cofrestrai dan sylw. Mae'r Cod yn fan cyfeirio pwysig ar gyfer penderfynu p'un a ddylai unrhyw honiadau y canfyddir eu bod yn wir arwain at gosb ddisgyblu gymesur.

Hefyd, mae'r Cod yn ein helpu i benderfynu a yw'r bobl sy'n gwneud cais i gofrestru gyda ni yn addas.

# Y chwe egwyddor allweddol

Mae cofrestreion, gan gynnwys cofrestreion sydd wedi'u cofrestru dros dro, yn ymrwymo i gynnal egwyddorion allweddol:

1. Cyfrifoldeb personol a phroffesiynol
2. Unplygrwydd proffesiynol
3. Cydweithio
4. Arweinyddiaeth
5. Gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol
6. Dysgu proffesiynol

# A. Ymddygiad profesiynol

## 1. Cyfrifoldeb personol a phroffesiynol

Mae cofrestreion:

**1.1** yn cydnabod eu cyfrifoldeb personol fel model o ymddygiad, i gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiynau addysg, a hynny yn y gweithle a thu allan iddo

**1.2** yn cynnal perthnasoedd â dysgwyr a phobl ifanc yn broffesiynol, drwy:

- gyfathrebu â dysgwyr a phobl ifanc yn barchus, mewn ffordd sy'n briodol iddynt
- defnyddio pob math o gyfathrebu mewn modd priodol a chyfrifol, yn arbennig y cyfryngau cymdeithasol
- sicrhau bod unrhyw gysylltiad corfforol yn angenrheidiol, yn rhesymol ac yn gymesur
- cyfrannu at greu amgylchedd dysgu teg a chynhwysol drwy fynd i'r afael â gwahaniaethu, ystrydebu a bwlio
- cynnal ffiniau proffesiynol

**1.3** yn ymgysylltu â dysgwyr a phobl ifanc i annog hyder, grymuso, a datblygiad addysgol phersonol

**1.4** yn meddu ar ddyletswydd gofal dros ddiogelwch dysgwyr a phobl ifanc a'u llesiant corfforol, cymdeithasol, moesol ac addysgol, drwy:

- roi buddiannau dysgwyr a phobl ifanc yn gyntaf
- gweithredu ynghylch unrhyw beth a allai beryglu diogelwch neu lesiant dysgwr neu berson ifanc
- rhoi gwybod, yn unol â 5.3, am unrhyw fater diogelu, neu unrhyw fater arall a allai o bosibl niweidio diogelwch neu lesiant dysgwr neu berson ifanc
- bod yn addas i ymarfer, sy'n cynnwys peidio â chael eu hamharu gan alcohol neu unrhyw sylwedd arall

**1.5** yn rheoli eu hiechyd, eu diogelwch, a'u llesiant personol eu hunain, a'u bod yn ystyriol o iechyd, diogelwch, a llesiant personol eu cydweithwyr

**1.6** yn dangos parch at gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac ymrwymiad iddynt, sy'n cynnwys herio a/neu roi gwybod am ymddygiad sy'n gwahaniaethu ac unrhyw ymddygiad annerbyniol arall

**1.7** yn deall bod y Cod yn berthnasol yn syth ar ôl cofrestru, wrth adnewyddu cofrestriad, a thrwy gydol y cyfnod cyflogaeth pan mae'n ofynnol cofrestru gyda CGA, gan gynnwys cyfnodau sefydlu statudol a chyfnodau prawf

## 2. Unplygrwydd proffesiynol

Mae cofrestreion:

**2.1** yn atebol am eu hymddygiad a'u cymhwysedd proffesiynol

**2.2** yn ymddwyn yn onest, yn foesegol, gydag unplygrwydd, yn enwedig o ran:

- cyllid ac arian yn y gweithle, yn enwedig y rhai sy'n gyfrifol am reoli/dosbarthu cyllid mewn sefydliadau addysg sy'n cael eu hystyried yn fusnesau
- rhinweddau, profiad, a chymwysterau personol
- geirdaon, datganiadau sy'n ofynnol (yn enwedig yn gysylltiedig â cheisiadau i gofrestru gyda CGA, a chyflogaeth), ac wrth lofnodi dogfennau
- asesu a thasgau'n gysylltiedig ag arholiadau
- eiddo a chyfleusterau eu cyflogwr
- cyfathrebu â CGA, gan ei hysbysu am unrhyw euogfarn droseddol neu rybuddiad cofnodadwy, neu gyfyngiad a osodir ar eu hymarfer gan unrhyw gorff arall
- eu cyflogwr, ac adrodd am unrhyw fater sy'n ofynnol yn ôl telerau ac amodau eu cyflogaeth
- eu hymddygiad yn y gweithle a thu allan iddo

**2.3** yn ymdrin â gwybodaeth a data mewn modd priodol, gan gymhwyso'r protocolau angenrheidiol i faterion yn ymwneud â chyfrinachedd, sensitifrwydd a datgelu

**2.4** yn glynu wrth safonau ymddygiad cyfreithlon, mewn modd sy'n cyd-fynd â'u statws fel un o gofrestreion CGA

## 3. Cydweithio

Mae cofrestreion:

**3.1** yn parchu, yn cynorthwyo, ac yn cydweithio â chydweithwyr, dysgwyr, pobl ifanc, ac eraill i gyflawni'r deilliannau dysgu gorau

**3.2** yn rhannu profiad a gwybodaeth i helpu eu hunain ac ymarferwyr eraill i ddatblygu a chynnal arfer gorau (gweler Adran B)

**3.3** yn ceisio datblygu a chynnal perthnasoedd gwaith proffesiynol ac ymatebol â rhieni, gwarcheidwaid, gofalwyr, a rhanddeiliaid eraill

**3.4** yn cyfathrebu mewn modd priodol ac effeithiol gyda phob un sy'n gysylltiedig ag addysg dysgwyr a phobl ifanc

## 4. Arweinyddiaeth

Mae cofrestreion â chyfrifoldebau arwain a rheoli:

**4.1** yn ymgorffori'r Cod ac yn arwain trwy esiampl

**4.2** yn hyrwyddo ac yn annog diwylliant sefydliadol cadarnhaol o barch, unplygrwydd, atebolrwydd, a phroffesiynoldeb

**4.3** yn rheoli staff, adnoddau, a risg yn effeithiol, gan gynnwys er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn gallu cael at y cymorth, yr hyfforddiant a'r oruchwyliaeth angenrheidiol i fodloni'r safonau disgwyliedig

**4.4** yn atebol am benderfyniadau ac am ddirprwyo tasgau

# B. Ymarfer proffesiynol

## 5. Gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol

Mae cofrestreion:

**5.1** yn gwybod y safonau proffesiynol sy'n berthnasol i'w proffesiwn/sector penodol mewn addysg, ac yn eu bodloni, drwy gydol eu gyrfa

**5.2** yn gwybod, yn deall, ac yn cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau a chanllawiau cyfredol sy'n berthnasol i'w hymarfer

**5.3** yn gwybod, yn deall, ac yn cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau a chanllawiau diogelu cyfredol sy'n berthnasol i'w hymarfer

**5.4** lle bo angen, yn ceisio cymorth, cyngor, ac arweiniad ac yn agored i adborth, gan ymateb iddo mewn modd cadarnhaol ac adeiladol

## 6. Dysgu proffesiynol

Mae cofrestreion:

**6.1** yn dangos ymrwymiad ar y cyd i'w dysgu proffesiynol parhaus drwy fyfyrio ar eu hymarfer a'i werthuso, sicrhau bod eu gwybodaeth a'u sgiliau proffesiynol yn gyfredol a chymryd camau i wella ansawdd eu hymarfer, lle bo angen

# C. Cyhoeddi ac adolygu

Mae'r Cod ar gael yn rhad ac am ddim ar ein gwefan ar ffurf hawdd ei ddarllen, testun bras, a fformatau eraill, os oes angen.

Mae'r Cod hwn yn disodli'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer cofrestreion, a gyhoeddwyd gennym ar 10 Mai 2024. Yn unol â'r Ddeddf, byddwn yn adolygu'r Cod bob tair blynedd.

Mae ein canllawiau arfer da yn ategu'r Cod hwn ac maent ar gael ar ein gwefan.


**Cysylltu:** Priodoldeb i Ymarfer

**Address:** Llawr 9, Eastgate House,

35-43 Heol Casnewydd,

Caerdydd,

CF24 0AB

**Ffôn:** 029 2046 0099

**E-bost:** priodoldebiymarfer@cga.cymru

**Gwefan:** www.cga.cymru


Gallwch ddarllen y cod ar ein gwefan drwy sganio'r cod QR, neu fynd i www.cga.cymru/cod